Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Ysgol Yr Hendy

**Ysgol Yr Hendy**
**Heol Iscoed**
**Hendy**
**Pontarddulais**
**Sir GaerfyrddinSA4 0XD**

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2023**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

# Ynglŷn â Chylch Meithrin Ysgol Yr Hendy

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Ysgol Yr Hendy |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal sesiynol |
| Person(au) cofrestredig | Cylch Meithrin Ysgol yr Hendy |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Deborah Thomas |
| Person â gofal | Helen Clement |
| Nifer y lleoedd | 16 |
| Amrediad oedran y plant | Dwy flwydd a hanner tan oed ysgol |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 13 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 8 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun-Gwener 8:45-11:45 |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu 'Cynnig Gweithredol' y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y Gymraeg ac anghenion diwylliannol y plant sy'n defnyddio, neu a allai, ddefnyddio'r gwasanaeth. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | Ddim yn berthnasol. Dyma'r arolygiad cyntaf iddo ar ôl ailgofrestru. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Tachwedd 2015 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 03/10/2023 |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1 Addasu'r ardal allanol er mwyn darparu cyfleoedd eang i blant ddatblygu eu medrau creadigol

A2 Sicrhau bod arweinwyr yn defnyddio gweithdrefn addas i rannu gwybodaeth gyson gyda rhieni a gofalwyr am yr hyn mae eu plant yn ei wneud yn y lleoliad

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Da**

Mae bron bob un plentyn yn teimlo'n hapus yn y lleoliad ac yn ymgartrefu'n dda yno. Mae'r rhan fwyaf yn gwenu wrth gyrraedd ac mae'r ychydig iawn sy'n ansicr yn ymlacio'n gyflym wedi iddynt dderbyn cysur gan ymarferwyr.

Mae bron bob un yn gyfarwydd â'r trefniadau dyddiol ac yn dilyn y gweithdrefnau'n briodol. Er enghraifft, mae'r plant yn mynd ati i dynnu eu cot a'u bag wrth gyrraedd, a hunangofrestru drwy osod eu llun ar y goeden gofrestru gydag ychydig o gymorth.

Mae bron bob un o'r plant yn mwynhau o fewn eu hamgylchedd dysgu a chwarae. Er enghraifft, yn ystod chwarae rhydd, maent yn symud yn hyderus rhwng y gweithgareddau sydd ar gael iddynt wrth ddilyn eu diddordebau. Maent yn mynd ati i ddewis eu hoff ardal ac ymgysylltu'n ystyrlon â'r gweithgareddau o'u dewis.

Mae bron bob un o'r plant yn ffurfio perthnasoedd cadarnhaol â'r ymarferwyr, sy'n cael effaith fuddiol ar eu lles. Mae'r rhan fwyaf yn datblygu perthnasoedd cadarn â phlant eraill, er enghraifft wrth gyd-chwarae i adeiladu tŵr gyda'i gilydd.

Mae'r rhan fwyaf yn hapus i chwarae gyda'i gilydd a chyda'r ymarferwyr o fewn y lleoliad. Maent yn mwynhau sgwrsio'n hamddenol â'i gilydd adeg byrbryd ac yn cyd-chwarae'n effeithiol. Er enghraifft, wrth chwarae fferm, maent yn gweithio fel tîm gan roi darnau i'w gilydd i greu'r fferm. Maent yn manteisio ar y dewis eang o

weithgareddau a chyfleoedd chwarae rhydd a gânt yn y brif ystafell ynghyd ag ambell weithgaredd yn yr ardal allanol. Mae'r rhain yn cynnwys helfa'r Hydref lle maent yn dod o hyd i gysgaduriaid sy'n cuddio mewn gwahanol fannau. Maent yn hoffi chwarae yn yr ardal chwarae rôl tu fewn gan ysgrifennu rhestrau siopa, ynghyd â chreu diodydd a bwyd yn y gegin fwd tu allan. Mae llawer o blant yn dyfalbarhau'n dda ar weithgareddau am gyfnodau sy'n briodol i'w cam datblygu. Mae'r plant yn dangos balchder yn eu gwaith, er enghraifft wrth ddangos i ymarferwyr y modelau toes o ddraenog a chorryn a grëwyd ganddynt.

Mae'r rhan fwyaf yn datblygu medrau annibyniaeth a hunangymorth priodol. Maent yn arwain eu chwarae gan ddewis gweithgareddau a chyflawni tasgau wrth chwarae rôl, peintio ac adeiladu gyda blociau. Mae llawer yn diwallu eu hanghenion personol yn dda trwy arllwys diodydd yn hyderus ynghyd â lledaenu menyn ar gracers yn ystod amser byrbryd.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae bron bob plentyn yn gwneud cynnydd da yn ystod eu cyfnod yn y lleoliad. Maent yn datblygu medrau personol, cymdeithasol ac emosiynol cadarn, ac yn chwarae gyda'i gilydd yn hyfryd.

Mae bron bob plentyn yn gwrando'n astud ar ymarferwyr ac yn ymateb yn briodol i'w cyfarwyddiadau yn ystod sesiynau a gweithgareddau. O ystyried eu cefndir ieithyddol, mae'r rhan fwyaf yn dechrau defnyddio geiriau Cymraeg yn briodol mewn gwahanol gyd-destunau wrth chwarae, yn arbennig wrth sôn am liwiau a siapiau. Mae'r rhan fwyaf yn dangos diddordeb brwd mewn llyfrau, yn mwynhau eu cynnwys ac yn eu trin yn briodol a chyda pharch. Mae bron bob un yn arbrofi'n hyderus wrth wneud marciau yn eu chwarae gan ddefnyddio amrywiol ddeunyddiau fel paent, creonau neu bridd sych. Mae ychydig yn dechrau deall swyddogaethau ysgrifennu wrth geisio copïo ambell lythyren ac yn adnabod llythyren gyntaf eu henw'n hyderus.

Mae'r rhan fwyaf yn dechrau defnyddio iaith fathemategol syml mewn cyd-destunau perthnasol fel cymharu dail mawr a bach yn ardal y goedwig. Mae'r rhan fwyaf yn cyfrif hyd at bum gwrthrych yn hyderus, gydag ambell un yn cyfrif ymhellach. Er enghraifft, maent wrth eu bodd yn cyfri nifer y brogaod mewn bocsys yn ystod amser trafod, neu ddod o hyd i lun rhif penodol o ffrwythau wrth gael stori'r Lindysyn Llwglyd. Mae bron bob un yn cymryd rhan yn hyderus mewn amrywiol ganeuon a rhigymau rhif.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn gyfarwydd â defnyddio adnoddau technolegol yn eu chwarae a'u gweithgareddau bob dydd ac yn gwneud hynny'n lled hyderus. Er enghraifft, maent yn rheoli ceir bach electronig, gan wasgu'r botymau priodol i'w symud ymlaen ac yn ôl. Mae llawer yn defnyddio chwaraewr cryno ddisgiau a chlustffonau i wrando ar ganeuon a llyfrau electronig sy'n eu hatgoffa am dasgau blaenorol yn seiliedig ar y thema gyfredol.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau corfforol da. Er enghraifft, maent yn efelychu Siani Sionc yn gwneud ystumiau ar sgrîn deledu. Maent yn chwarae'n braf

yn yr ardal allanol, ac yn dilyn llwybr yn synhwyrol wrth fynd o fan i fan. Mae’r rhan fwyaf yn hyderus i 'roi cynnig arni' ac nid ydynt yn ofni gwneud camgymeriadau. Mae bron bob un yn datblygu eu medrau modur mân yn dda gan drin offer bach yn hyderus.

Mae’r rhan fwyaf yn datblygu eu medrau datrys problemau yn briodol. Er enghraifft, maent yn dewis a defnyddio’r deunyddiau sydd eu hangen arnynt i ymgymryd â thasgau penodol fel gwneud twnel o flociau pren neu ddeunydd jync.

**Gofal a datblygiad: Da**

Mae ymarferwyr yn darparu gofal a chymorth da i’r plant ac mae perthynas agos a naturiol iawn yn bodoli rhyngddynt. Maent yn adnabod y plant yn dda iawn, ac yn parchu eu diddordebau, eu hoffterau a'u gofynion personol. Maent yn ymateb yn sensitif i blant sy’n dewis peidio â chymryd rhan mewn gweithgareddau.

Mae ymarferwyr yn blaenoriaethu iechyd a diogelwch y plant yn llwyddiannus. Maent yn deall eu rolau a’u cyfrifoldebau’n dda ac yn gweithredu polisïau a gweithdrefnau’r lleoliad yn effeithiol. Mae’r arweinwyr yn sicrhau bod y cymarebau staffio bob amser yn addas ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar y gofal y mae ymarferwyr yn ei ddarparu. Mae ymarferwyr yn dilyn y gweithdrefnau priodol wrth dderbyn y plant ar ddechrau’r sesiwn a’u trosglwyddo’n ddiogel i’r rhieni a gofalwyr ar ddiwedd y bore. Mae tystysgrifau cymorth cyntaf a hylendid bwyd cyfredol gan bob un o’r ymarferwyr, sy’n sicrhau eu dealltwriaeth o'r prosesau i'w dilyn. Mae’r gweithdrefnau ac arferion hylendid yn effeithiol ac mae ymarferwyr yn annog y plant i olchi eu dwylo yn annibynnol ar yr amseroedd priodol.

Mae’r lleoliad yn hyrwyddo arferion bwyta ac yfed yn iach amser byrbryd ac yn annog y plant i wneud ymarfer corff drwy efelychu symudiadau cymeriad ar y teledu, er enghraifft. Mae’r holl ymarferwyr wedi cwblhau hyfforddiant amddiffyn plant ac maent yn ymwybodol o’r camau priodol i’w cymryd. Mae trefniadau’r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni’r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae bob ymarferwr yn cadw cofnodion addas o ddamweiniau a digwyddiadau. Mae’r cofnodion hyn yn cynnwys llofnodion ymarferwyr, rhieni neu ofalwyr. Maent yn gwerthuso damweiniau a digwyddiadau yn rheolaidd er mwyn nodi unrhyw batrymau a welir dros gyfnod. Mae ymarferwyr yn cynnal driliau tân yn achlysurol er mwyn i’r plant gyfarwyddo â’r gweithdrefnau.

Mae ymarferwyr yn darparu naws ac amgylchedd cartrefol yn y lleoliad, sy’n meithrin gofal ac yn dangos parch. Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth drylwyr o’r polisi rheoli ymddygiad, ac maent yn gweithredu fel modelau rôl da. Maent yn rhyngweithio’n gadarnhaol â’r plant, gan arddangos cynhesrwydd a charedigrwydd atynt. Maent yn canmol y plant yn aml, sy’n cael effaith gadarnhaol ar eu hunanhyder. Maent yn annog y plant i fod yn annibynnol mewn modd caredig a sensitif. Mae ymarferwyr yn dilyn prosesau effeithiol er mwyn adnabod a chefnogi anghenion unigol plant, gan gynnwys y rheini sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae ymarferwyr yn cynllunio ystod briodol o gyfleoedd dysgu ysgogol a diddorol i'r plant. Mae hyn yn eu galluogi i ddatblygu eu chwilfrydedd mewn amgylchedd cartrefol a diogel. Maent yn aml yn ystyried syniadau'r plant wrth gynllunio tasgau addas iddynt mewn amrywiaeth o gyd-destunau amserol, fel byd natur adeg yr hydref.

Mae gan ymarferwyr ddisgwyliadau uchel o bob plentyn. Maent yn adnabod ac yn deall eu hanghenion datblygiadol yn drylwyr. Maent yn defnyddio'r wybodaeth hon yn llwyddiannus i ddatblygu medrau'r plant mewn meysydd penodol fel rhifedd, llythrennedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) gynnar. Mae'r profiadau hyn wedi'u seilio ar yr egwyddor o ddysgu drwy chwarae ac fel arfer yn adeiladu'n uniongyrchol ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau cyfredol y plant.

Mae'r ymarferwyr i gyd yn darparu cyfleoedd cyson i blant glywed a defnyddio geirfa ac ymadroddion Cymraeg yn barhaus ac maent yn eu hannog yn gyson i ymateb yn y Gymraeg. Mae hon yn elfen gref o'r ddarpariaeth.

Mae'r lleoliad yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant yn briodol. Mae ymarferwyr yn creu gweithgareddau sy'n eu hannog i ddefnyddio'u chwilfrydedd ac i ganolbwyntio'n benodol ar ryfeddod y byd mewn amrywiaeth o gyd-destunau fel astudio'r byd natur yn y gwahanol dymhorau. Maent yn hybu ymwybyddiaeth plant o draddodiadau, dathliadau a diwylliant Cymru yn effeithiol. Maent yn cyflwyno caneuon a gweithgareddau penodol i ddathlu dyddiau gŵyl yn eu tro, fel Dydd Gŵyl Dewi a Diwrnod Santes Dwynwen. Mae ymarferwyr yn canolbwyntio ar onestrwydd, tegwch a pharch ac yn addysgu'r plant bod angen iddynt drin ei gilydd eu hamgylchedd a'u hadnoddau gyda gofal. Mae gweithgareddau i ddatblygu medrau cymdeithasol y plant yn dda iawn. Mae'r rhain yn cynnwys rhoi cyfle iddynt gymryd cyfrifoldeb am dacluso ar ddiwedd sesiwn, gosod y platiau a chymryd tro i arllwys llaeth yn ystod amser byrbryd.

Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd parhaus i'r plant symud yn gwbl naturiol rhwng y gweithgareddau a ddarperir y tu mewn. Am resymau diogelwch, cyfyng yw'r cyfleoedd iddynt symud yn rhydd i'r ardal allanol. Rhoddir cyfleoedd achlysurol a synhwyrol i blant ddysgu am beryglon, wrth arsylwi ar oedolyn yn cynnau tân yn y goedwig, er enghraifft.

Mae ymarferwyr yn arsylwi ar gynnydd y plant yn rheolaidd. Maent yn defnyddio'r wybodaeth hon yn briodol, er yn aml yn anffurfiol, i gynllunio'r camau nesaf sy'n diwallu eu hanghenion a'u diddordebau.

**Yr amgylchedd: Da**

Mae ymarferwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd dysgu yn ddiogel i'r plant. Maent yn gofyn i ymwelwyr fewngofnodi'n brydlon ac maent yn cadw cofnod manwl o'r cofrestrau hyn. Mae ymarferwyr yn cwblhau asesiadau risg perthnasol ar gyfer yr adeilad, yr ardal allanol ac ar gyfer gweithgareddau penodol.

Mae ymarferwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn groesawgar a chartrefol i’r plant. Mae’r arddangosfeydd yn ddeniadol ac yn creu ymdeimlad cryf o berthyn. Er enghraifft, maent yn arddangos gwaith creadigol y plant a ffotograffau ohonynt wrth eu tasgau. Maent yn trefnu’r amgylchedd mewnol yn bwrpasol i sicrhau bod yr ardaloedd yn amrywiol, yn ddiddorol, ac yn ysgogol i ddarparu profiadau dysgu gwerthfawr i’r plant. Mae ymarferwyr wedi rhannu’r ystafell yn nifer o ardaloedd deniadol er mwyn dal diddordeb a dychymyg y plant. Maent wedi sicrhau bod ardaloedd penodol i blant ddatblygu eu medrau creadigol, i orffwys ac i gymdeithasu gyda'i gilydd.

Mae’r arweinwyr wedi sicrhau bod ansawdd yr amgylchedd dysgu yn dda ac yn cynnig ystod o gyfleoedd dysgu gwerthfawr i’r plant. Mae’r ardal chwarae rôl, er enghraifft, yn hyrwyddo’r arfer o ddatblygu medrau bywyd go iawn y plant drwy roi cyfle iddynt ddefnyddio llestri tsiena a ffrwythau a llysiau ffres. Mae gan y lleoliad ystod eang o deganau ac adnoddau dysgu amrywiol sydd mewn cyflwr da. Mae ymarferwyr yn defnyddio’r adnoddau amrywiol yn effeithiol i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol y plant. Er hyn, cyfyng yw’r adnoddau sydd ar gael i’r plant ddysgu am wahanol ddiwylliannau ac amrywiaeth.

Mae’r arweinwyr yn gwneud defnydd da o’r rhan fwyaf o ofod sydd ar gael iddynt. Maent yn sicrhau bod y plant yn cael mynediad achlysurol i’r ardal gyfyng allanol. Fodd bynnag, gan fod yr ardal allanol mor gyfyng, nid yw'n caniatáu i ymarferwyr ddatblygu digon ar fedrau creadigol y plant. Maent yn darparu cyfleoedd cyfoethog wythnosol i blant fynychu sesiynau ymarferol yng nghoedwig yr ysgol gynradd.

Mae’r arweinydd a’r ymarferwyr yn sicrhau bod y lleoliad yn daclus, yn lân ac yn ddeniadol. Mae’r dodrefn, cyfarpar, teganau ac adnoddau o ansawdd da ac yn cael eu storio ar lefel sy’n addas i’r plant er mwyn eu hannog i fod yn annibynnol. Mae gan y lleoliad gyfleusterau pwrpasol i unigolion olchi a sychu eu dwylo sydd, yn ei dro, yn cynnig cyfleoedd rheolaidd i annog y plant i ddod yn fwy annibynnol.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da

Mae’r arweinwyr yn brofiadol iawn ac yn gosod disgwyliadau uchel i'r ymarferwyr. Maent yn rhoi cyfleoedd cyfoethog iddynt ddatblygu’n broffesiynol, ac yn eu hannog i wneud eu gorau dros y plant. Mae ganddynt weledigaeth glir ac amcanion synhwyrol ar gyfer y lleoliad. Mae’r rhain wedi’u seilio ar ‘ddarparu gofal ac addysg o safon uchel iddynt mewn amgylchedd sy’n ddiogel a symbylus er mwyn iddynt gael profiadau a chyfleoedd i ddysgu drwy chwarae.’ Maent yn cyfleu’r weledigaeth hon yn llwyddiannus ac yn sicrhau bod yr ymarferwyr yn cydweithio’n effeithiol fel tîm mewn amgylchedd hapus a Chymreig. Mae’r arweinwyr yn gwerthfawrogi pwysigrwydd datblygu medrau Cymraeg plant, a chydag ymrwymiad llwyr yr ymarferwyr, yn gwneud hynny’n gyson ac effeithiol. Dyma un o rinweddau pennaf y lleoliad hwn.

Mae pob un o’r ymarferwyr yn ymfalchïo eu bod wedi gweithio yn y lleoliad hwn ers blynyddoedd maith. O ganlyniad, maent wedi creu awyrgylch hapus a chartrefol lle mae pob ymarferydd yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi gan yr arweinwyr, y rhieni a’r plant.

Mae'r arweinydd yn cydweithio’n agos â swyddogion y pwyllgor rheoli a staff yr ysgol gynradd leol. Mae hyn yn sicrhau eu bod hwythau’n ymwybodol o’r hyn a ddarperir yno. Mae’r arweinwyr yn hyrwyddo arferion diogel a diwylliant cadarn o ddiogelwch ac mae polisïau addas wedi'u sefydlu i sicrhau bod y plant a’r ymarferwyr yn ddiogel.

Mae’r arweinwyr yn rheoli staff ac adnoddau yn effeithiol. Maent yn nodi rolau a chyfrifoldebau ymarferwyr yn glir, ceir cymarebau da o oedolion i blant ac mae gan y lleoliad gynlluniau priodol wrth gefn rhag ofn y bydd staff yn absennol. Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd addas o'r cyllid y mae'n ei dderbyn i gyflogi ymarferwyr ac i brynu adnoddau addas sy’n cael effaith gadarnhaol ar safonau plant.

Mae gan yr arweinwyr weithdrefn addas i werthuso gwaith y lleoliad. Mae’r holl ymarferwyr yn rhan o’r weithdrefn hon, a thrafodir yn gyson yr hyn maent yn ystyried eu bod yn ei wneud yn dda ynghyd â’r meysydd sydd angen eu datblygu. Yn ogystal ag ystyried barn yr ymarferwyr, mae’r arweinwyr hefyd yn ystyried barn rhieni a gofalwyr trwy gyfrwng holiaduron ac ati. Maent yn defnyddio deilliannau’r weithdrefn hon i flaenoriaethu'n glir y materion y maent am eu gwella ac mae ganddynt strategaeth effeithiol i’w galluogi i wneud hyn.

Mae gan yr holl ymarferwyr bartneriaeth agos â rhieni a gofalwyr. Mae ganddynt bolisi drws agored ac maent bob amser yn barod i rannu gwybodaeth bwysig gyda rhieni a gofalwyr am bolisïau a gweithdrefnau'r lleoliad. Er hyn, cyfyng yw’r wybodaeth maent yn ei rhannu â nhw am yr hyn mae eu plant yn ei wneud yn ddyddiol yn y lleoliad.

Mae gan y lleoliad bartneriaeth hynod effeithiol â’r ysgol gynradd leol y mae wedi ei leoli ynddi i hwyluso’r addysgu ac i gefnogi'r broses bontio. Er enghraifft, mae aelod o staff yr ysgol yn darparu sesiynau i blant y lleoliad yn ardal y goedwig. Mae hyn yn cyfoethogi eu profiadau dysgu ac yn gymorth i’r plant pan ddaw’r amser iddynt drosglwyddo i’r ysgol gynradd.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 05/12/2023

| Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei Chyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 05/12/2023

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella / Meysydd I'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad | Dd/G |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023:  Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.  Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  05/12/2023

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

## A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall p'un a yw ein hadroddiadau yn darparu gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, cliciwch ar y ddolen ganlynol i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiad arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol am wasanaeth, ewch i'n Tudalen arolygon adborth

**Dyddiad Cyhoeddi** 05 Rhagfyr 2023

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 05/12/2023